**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**8 TACHWEDD 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Mercher, 8 Tachwedd 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rob Davies (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Gina Maddison, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jean Davies, Roz Mansell a Linda Thew

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ar gyfer cofnod rhif 18
Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes (Sian Jones) a
Swyddog Rheolaeth Amgylcheddol (Samantha Myller)

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD

Cofnodwyd cysylltiad personol ar gyfer holl Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen - Adroddiad Blynyddol Drafft IRPW 2024/25.

## 15. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Ted Palmer a Steve Copple.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Cynllun Datblygu drafft gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r Cynllun yn barod o fewn y pythefnos nesaf ac y byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor.

Cafodd y cofnodion eu cynnig fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Steve Copple.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 16. RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y rhaglen waith i'w hystyried. Yna rhoddodd drosolwg o'r eitemau rheolaidd a oedd yn gynwysedig ynghyd â'r eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfodydd i ddod ym mis Ionawr, mis Mawrth a mis Mehefin.

Cymeradwywyd yr argymhellion yn yr adroddiad fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd Arnold Woolley ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Waith ddrafft a chymeradwyo / newid yn ôl yr angen.
(b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 17. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), 2024/25

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ac eglurodd ei fod wedi'i ddosbarthu i bob Awdurdod Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau yn yr Adroddiad Blynyddol, gan fod yr IRPW yn gyfrifol am osod cyfraddau taliadau arfaethedig ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer 2024/25. Darparwyd gwybodaeth am y cynnydd sylfaenol i £18,666 ar gyfer Aelodau o 1 Ebrill 2024, ac mae'r tabl ym mhwynt 1.03 yn yr adroddiad yn amlygu'r newidiadau eraill a gynigir. Roedd yr holl gyflogau wedi'u hadolygu o dan y Cynllun Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) gyda fforddiadwyedd a thaliadau aelodau cyfetholedig yn ffocws ar gyfer eleni. Roedd y newidiadau a awgrymwyd wedi'u hamlygu ym mhwynt 1.06 yn yr adroddiad gyda'r holl benderfyniadau eraill megis costau teithio a gofal yn aros yr un fath. Rhoddwyd trosolwg hefyd o'r newidiadau i ddulliau adrodd ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

Yna cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y goblygiadau o ran adnoddau a dywedodd ei fod yn gofyn i unrhyw Aelod nad yw'n dymuno derbyn y cynnydd ysgrifennu ato'n uniongyrchol. Roedd pwynt 1.10 yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y cwestiynau oedd yn cael eu gofyn gan yr IRPW gyda gwybodaeth gefndir wedi'i hamlygu i'r aelodau. I gloi, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod barn y Pwyllgor yn cael ei geisio cyn i'r Cyngor gyflwyno ymateb i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 8 Rhagfyr 2023. Roedd yn ofynnol i'r IRPW ystyried unrhyw sylwadau a wneir am yr adroddiad drafft cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2024.

Roedd gan y Cynghorydd Ted Palmer bryderon ynghylch y pwysau gan gyfoedion ar Aelodau i dderbyn y cynnydd hwn a soniodd ei fod wedi mynychu

cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd Cymru lle'r oedd cynrychiolwyr IRPW yn bresennol. Wrth ofyn yr un cwestiwn iddyn nhw, cadarnhawyd nad oeddent wedi'u deddfu i orfodi'r cynnydd hwn ond y gallai awdurdodau lleol lobïo Llywodraeth Cymru i newid y sefyllfa. Gofynnodd sut yr oedd yr awdurdod yn lobïo'r llywodraeth i newid y broses.

Mewn ymateb cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod modd cysylltu â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru ond awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys hyn fel rhan o'r adborth i'r adroddiad hwn. Pe bai'r farn hon yn cael ei mynegi ar draws holl Gynghorau Cymru, yna byddai'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad adborth. Cytunodd hefyd i gysylltu â CLlLC i weld a oeddent wedi derbyn adborth tebyg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Palmer at bwysau gan gyfoedion a gofynnodd a oedd yn hysbys p'un a oedd unrhyw bwysau sgorio pwyntiau gwleidyddol yn berthnasol, oherwydd mae'n bosibl bod rhai pobl yn dibynnu ar y lwfans uwch a bod ei angen arnynt. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod yna thema a geiriad yn yr adroddiad a oedd yn adlewyrchu hynny. Roedd yr IRPW yn ceisio annog a chynyddu amrywiaeth o fewn Cynghorau ac mae'n bosibl bod cydnabyddiaeth ariannol yn unig incwm i rai Cynghorwyr. Penderfyniad unigol personol oedd hwn ac ni ddylai gael ei wneud dan bwysau.

Dywedodd y Cynghorydd Antony Wren fod y tâl yn seiliedig ar wythnos waith 3 diwrnod heb roi unrhyw ystyriaeth i faint na math y ward, dim atebolrwydd am wahanol lwythi gwaith na nifer y pwyllgorau yr oedd aelodau yn eu mynychu. Fel lwfans sylfaenol ar gyfer Cynghorydd cyffredinol, teimlai nad oedd lefel yr incwm yn ddigon heb gael ail incwm o swydd arall neu bensiwn. Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Wren at y goblygiadau o ran adnoddau ym mhwynt 2.01 yn yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad ar y ffigwr o £88,921.

Mewn ymateb i'r pwynt ynghylch tri diwrnod yr wythnos, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod hwn yn cyfeirio at Gynghorydd mainc gefn arferol a chytunodd y gellid cynnwys sylwadau'r Cynghorydd Wren yn yr adborth. O ran y pwynt goblygiadau adnoddau, cadarnhaodd fod y ffigwr yn cyfeirio at yr holl lwfansau a oedd yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau ac ati.

Dywedodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst, ar adeg pan fo cyllidebau dan bwysau fel hyn a phan mae aelwydydd yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw, y byddai'n dymuno gweld y cynnydd yn pasio gwiriad realiti. Yna gofynnodd am eglurhad ynghylch lefel y tâl yr oedd cadeiryddion pwyllgorau yn ei gael ac a oedd y cynnydd yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol y byddai cadeirydd pwyllgor yn ei wneud. Gofynnodd hefyd beth oedd y nifer leiaf o gyfarfodydd yr oedd yn rhaid i aelod o bwyllgor eu mynychu er mwyn aros yn Gynghorydd ac eithrio drwy absenoldeb rhiant neu absenoldeb tebyg. Teimlai y dylid cael isafswm safon ar gyfer presenoldeb a ddisgwylir gan Gynghorwyr fel bod pob Cynghorydd yn tynnu ei bwysau ac yn haeddu'r swm yr oeddent yn ei dderbyn.

Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar y dadansoddiad o daliadau a wnaed a dywedodd fod y rhain yn seiliedig ar fodel cyflog cyfartalog yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Y rheswm yr oedd hyn yn cael ei ystyried nawr oedd oherwydd bod dull gwahanol wedi'i ddefnyddio i gyfrifo hyn yn y gorffennol a oedd wedi arwain at gynnydd sylweddol

a achosodd gryn bryder. Gan gyfeirio at y cwestiwn ynghylch presenoldeb, cadarnhaodd fod angen i'r Aelodau fynychu un cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis oni bai bod y Cyngor yn rhoi gollyngiad a bod presenoldeb yn cael ei gofnodi fel cofnod cyhoeddus.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod cynnydd mawr wedi bod ychydig cyn yr etholiad diwethaf a bod angen i'r pwyllgor hwn sicrhau bod y cynnydd yn parhau yn ystod tymor nesaf y Cyngor yn hytrach na'i adael ar gyfer ymarfer dal i fyny ar y diwedd. Gan gyfeirio at y gofyniad lleiaf ar gyfer lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd, cadarnhaodd mai unwaith bob chwe mis a bennwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn y gorffennol talwyd lwfans presenoldeb i Gynghorwyr am nifer y cyfarfodydd yr oeddent yn eu mynychu ac nid oedd hyn yn ystyried a oeddent yn dal swyddi cyfrifol o fewn y sefydliadau. Dywedodd y Prif Swyddog fod diffyg cysylltiad rhwng ethos Deddf 1972, un cyfarfod bob chwe mis, a'r disgwyliadau sy'n berthnasol nawr sef bod Cynghorwyr yn derbyn lwfans, waeth faint o gyfarfodydd y maent yn eu mynychu. Y rhesymeg oedd nad oedd Cynghorwyr o reidrwydd yn cyflawni eu holl waith mewn cyfarfodydd. Gall cynghorwyr fynychu cyfarfodydd ond gwneud ychydig iawn ar gyfer eu wardiau neu gall Cynghorwyr fod yn brysur iawn yn eu wardiau a mynychu ychydig iawn o gyfarfodydd neu gymysgedd o'r ddau, ac mae'n bosibl mai dyna'r sail resymegol dros beidio â diweddaru'r gofyniad presenoldeb lleiaf yn y gorffennol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ted Palmer at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Parkhurst gan ddweud bod y sylwadau hyn, er nad dyna'r bwriad y tu ôl iddynt, yn rhoi pwysau gan gyfoedion.

Sicrhaodd y Cynghorydd Parkhurst y Cynghorydd Palmer nad oedd yn awgrymu pwysau gan gyfoedion ar Gynghorwyr unigol ond mai'r hyn yr oeddem yn ei drafod oedd graddfa gyflog genedlaethol ac y dylid edrych arni'n feirniadol. Gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y Prif Swyddog ynghylch y diffyg cysylltiad rhwng yr isafswm presenoldeb a'r raddfa gydnabyddiaeth gyfredol. Os oedd y datgysylltiad, efallai y dylid gwneud sylw am hyn yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad hwn er mwyn galluogi ystyriaeth bellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at y ddogfen a oedd yn cynnig yr un gyfradd lwfans sylfaenol i Gymru gyfan a chymharodd hynny â'r gwahanol gyfraddau lwfans sy'n cael eu cynnig yn Lloegr. Teimlai ei fod yn llwybr peryglus wrth gyfeirio at lwyth gwaith Cynghorwyr a dywedodd os nad oedd y Cynghorwyr yn cyflawni eu dyletswyddau byddai'r etholwyr yn siŵr o roi gwybod iddynt. Dywedodd nad oedd cyfarfodydd ward gyda'r Cyngor, yr Heddlu, mynychu sesiynau codi sbwriel, neu gerdded o amgylch eu wardiau yn rheolaidd yn cael eu cynnwys a bod pob Cynghorydd yn deall yr hyn oedd angen ei wneud yn eu ward eu hunain.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Antony Wren eto at y goblygiadau o ran adnoddau a gofynnodd a oedd yn cynnwys cyfraniad ychwanegol y cyflogwr tuag at ffigurau pensiwn ac yswiriant gwladol. Mewn ymateb eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd hynny'n digwydd ond cytunodd i gynnwys hynny yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Prif Swyddog ei bod yn iawn i Gynghorwyr graffu ar y cyfraddau a oedd yn cael eu gosod a dyma'n rhannol y rheswm pam oedd IRPW yn cylchredeg yr adroddiad gan ei fod yn sefydliad sy'n cael ei ariannu gan drethi ac arian cyhoeddus. Roedd hefyd yn allweddol bod pobl yn cael eu denu i ddod yn Gynghorwyr lleol. Cynhaliwyd dadansoddiad o ddemograffeg ein sefydliad yn y Cyngor diwethaf, a ddaeth i’r casgliad bod y sefydliad yn anghymesur yn wrywaidd ac yn anghymesur yn hŷn o’i gymharu â’r boblogaeth a bod hyn yn gyffredin ledled Cymru. Os oedd yr awdurdod am ddenu pobl o bob cefndir, roedd yn rhaid i'r tâl fod ar lefel resymol. Roedd yn gwerthfawrogi'r pwysau a deimlir gan Gynghorwyr ond nid oedd yn meddwl y dylai Cynghorwyr ymddiheuro am y lwfansau y maent yn eu hennill gan nad yw hon yn swydd hawdd bod ar alwad 24/7 lle nad yw’r galwyr yn aml mewn hwyliau da pan fyddant yn galw gyda'u problemau.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Johnson a oedd yr Atodlen o Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob Cynghorydd ac aelodau cyfetholedig yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn. Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd mis Medi'r Cyngor ac yn amlygu'r hyn a oedd yn cael ei ddyrannu i Gynghorwyr y flwyddyn honno a hefyd yn adrodd ar y dyraniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn dilyn hyn, byddai’n cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Dywedodd y Cynghorydd Johnson fod hwn yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd ei weld. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at waith yr IRPW i gyfyngu ar lefel craffu ar unigolion er mwyn atal y pwysau hwnnw ar unigolion. Roedd nifer o lwfansau, megis y lwfans gofal, yr oedd yn rhaid eu hawlio yn hytrach na'u derbyn fel taliadau awtomatig. Roedd y lwfans hwn yn golygu bod modd cael carfan amrywiol o Gynghorwyr ac ni ddylid ei ddefnyddio yn eu herbyn. Dyna pam roedd yr IRPW mewn rhai achosion cyfyngedig yn symud i ffwrdd oddi wrth nodi'r hyn yr oedd pobl wedi'i hawlio ac yn hytrach yn nodi swm crwn yn ei gyfanrwydd at y dibenion hynny. Byddai'r prif lwfans yn cael ei adrodd gyda'r lwfans teithio, a’r lwfans gofalwyr ac ati yn cael ei adrodd fel swm crwn i gael cydbwysedd ynghylch tryloywder agored.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at gwestiwn 6 a oedd yn awgrymu bod yr egwyddor hon yn berthnasol i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn y lle cyntaf, ond nad oedd y sir yn adrodd ar hawliadau unigol ar gyfer y lwfans gofal ond yn adrodd ar lwfansau teithio a lwfansau eraill yn unigol. Maent yn symud tuag at arfer Cynghorau Tref a Chymuned i adrodd cyfanswm yn hytrach nag yn unigol ac roedd cwestiwn 6 yn gofyn a ddylai hyn gael ei gymhwyso i gyrff eraill a fyddai'n annog aelodau i hawlio'r hyn yr oedd ganddynt hawl i'w hawlio.

Gofynnodd y Cynghorydd Wren a oedd y Cyngor yn cefnogi'r Cynllun Beicio i'r Gwaith a dywedodd y byddai ganddo ddiddordeb mewn prynu beic trydan. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y Cyngor yn cefnogi'r cynllun hwnnw a chytunwyd bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cymryd hyn fel cam gweithredu o'r cyfarfod ac yn dosbarthu'r wybodaeth i'r Aelodau.

Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw farn ar y cwestiynau neu'r sylwadau cyffredinol y gellid eu hadrodd yn ôl i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cyfeirio at y cwestiynau :-

**C1** – A ydych chi'n meddwl bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a thâl cydnabyddiaeth digonol i gynrychiolwyr? Os ddim, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?
**Ymateb:** Cytunodd y Cynghorydd Wren

**C2** – A ydych yn cytuno â chynnig y Panel mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig o bwyllgorau? Os ddim, a oes gennych unrhyw awgrymiadau amgen?
**Ymateb:** Ydym

**C3** – A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da neu syniadau eraill am ffyrdd y gallem ddefnyddio ein pwerau i annog teithio mwy cynaliadwy ymhlith aelodau?
**Ymateb:** Y cynllun Beicio i'r Gwaith gan ei fod yn annog teithio cynaliadwy.

Rhannu Ceir - cyfeiriodd y Cynghorydd Wren at y lwfans milltiroedd a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd i addasu hyn i annog mwy i rannu ceir. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn credu fod lwfans teithwyr yn cael ei roi ar gyfradd o 5c y filltir ond cytunodd y byddai'n gwirio a oedd hyn yn dal yn berthnasol.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Johnson a oedd arfer gorau a oedd yn cael ei rannu ledled Cymru.

**C4** – Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am ymatebion gan Aelodau unigol. Gweler paragraff 1.11.

Yn hytrach na gofyn i'r pwyllgor ateb y cwestiwn ar ran yr holl Gynghorwyr, gofynnwyd i'r aelodau a fyddent yn cytuno i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gynnal arolwg o lwfansau ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Palmer yn cefnogi hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Wren am eglurhad ynghylch y taliad absenoldeb teuluol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n gwirio ac yn bwydo hyn yn ôl i'r pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Steve Copple pa mor anodd oedd hi i hawlio'r hawliau hyn ac a oedd hon yn thema gyffredin.

**C5** – Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â Chynghorau Cymuned a Thref felly nid yw'n berthnasol.

Dywedodd y Cynghorydd Ted Palmer ein bod yn croesawu eu hymdrechion i ddileu'r pwysau a allai fod ar Gynghorwyr neu beidio. Dywedodd y Cynghorydd Wren bod hyn yn osgoi'r enwi a chodi cywilydd a achosir gan bwysau gan gyfoedion.

**C6** – A ydych yn cytuno y dylid cyhoeddi ffigurau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau prif gynghorau fel cyfanswm cyffredinol yn hytrach nag unigol?

**Ymateb:** Ydym

Cyfeiriodd y Cynghorydd Parkhurst at daliadau teithio a chynhaliaeth a oedd, yn ei farn ef, yn wahanol i daliadau gofal plant a thaliadau eraill a oedd yn bersonol i'r unigolyn hwnnw. Roedd gan y cyhoedd hawl i wybod a oedd aelodau'n mynd i gostau am westai drud a threuliau eraill yn yr un modd ag yr oedd yn rhaid i Aelodau Seneddol fod yn atebol i'w hetholwyr. At ei gilydd, dylai fod yn rhaid i gynghorwyr gyfiawnhau'r treuliau hynny i'w hetholwyr hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Copple pam nad oedd Panel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'i gynnwys. Ymatebodd y Prif Swyddog gan ddweud efallai na fyddai'r taliadau hyn yn cael eu pennu gan yr IRPW. Nid oedd swyddogaeth Paneli Heddlu a Throseddu yn swyddogaeth ddatganoledig ac roedd yn cael ei rheoli o bell gan San Steffan yn hytrach na thrwy Gaerdydd. Roedd tudalen 25 o'r pecyn yn egluro pa sefydliadau yr oedd hyn yn berthnasol iddynt.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Antony Wren a'r Cynghorydd Gillian Brockley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried a rhoi sylwadau ar y Penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25.

(b) Bod awdurdod yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ymateb ar ran y Cyngor, gan adlewyrchu'r penderfyniad a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

(c) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi Cwestiwn 4 o'r ddogfen ymgynghori i'r holl Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig er mwyn iddynt ymateb yn unigol.

## 18. CARTREFI SYMUDOL PRESWYL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes yr adroddiad a oedd yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a basiwyd yn y Cyngor Llawn ar 20 Mehefin 2023 mewn perthynas â thrwyddedu cartrefi symudol preswyl, gyda'r penderfyniadau yn cael eu hamlygu ym mhwynt 1.01 o'r adroddiad. Rhoddwyd trosolwg o ddiben a chraffu ceisiadau trwyddedu a oedd yn caniatáu i drigolion y safleoedd gyflwyno sylwadau. Ar hyn o bryd y pwyllgor trwyddedu oedd yn gyfrifol am ddirprwyo, ond yn ymarferol roedd y rhain wedi'u dirprwyo i swyddogion. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu ar 4 Hydref a phenderfynwyd y dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch ceisiadau yn y dyfodol gael eu gwneud gan y pwyllgor trwyddedu llawn. Roedd hwn yn argymhelliad yr oedd y Pwyllgor Trwyddedu yn dymuno ei wneud yn hytrach na'i fod yn cael ei ddirprwyo i is-bwyllgor neu i swyddogion a chytunwyd i ystyried pob cais o dan y broses hon. Gan fod hwn yn newid sylweddol roedd hyfforddiant gorfodol arbenigol wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu a oedd

bellach wedi'i agor i'r holl Aelodau petaent yn dymuno mynychu a byddai hyn yn darparu dirprwyon i'r Pwyllgor Trwyddedu pe bai angen.

Yna esboniodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes y byddai angen paratoi Polisi ar safonau ymgynghori gofynnol ar gyfer aelodau ward a thrigolion ac y byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn maes o law. Darparwyd gwybodaeth am y penderfyniadau allweddol ar gyfer ceisiadau a oedd yn cynnwys natur y penderfyniad a'r cyfnod ymgynghori 21 diwrnod arfaethedig a roddwyd i drigolion ar y safleoedd ac aelodau wardiau. Ni chyfeiriwyd at y cyfnod ymgynghori yn neddfwriaeth 2013 ond yr hyn y cyfeiriwyd ato oedd y cyfnod yr oedd yn ofynnol i'r awdurdod wneud y penderfyniad os nad oedd y ddwy ochr yn cytuno o fewn amserlen o ddau fis. Wrth gyflwyno'r cyfnod ymgynghori 21 diwrnod, teimlwyd bod hon yn amserlen gyraeddadwy a fyddai'n galluogi'r adroddiadau angenrheidiol a'r dogfennau ategol i gynorthwyo'r aelodau i fod yn barod. I gloi, croesawodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes arweiniad y Pwyllgor ar hyn ac anogodd unrhyw aelodau a hoffai fynychu'r hyfforddiant i wneud hynny.

Cadarnhaodd y Cynghorwyr Antony Wren, Ted Palmer ac Ian Hodge y byddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu'r hyfforddiant.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes fod yr hyfforddiant ar-lein ar fore 4 Rhagfyr 2023.

Adroddodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson mai ef oedd eilydd y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol a'i fod yn dymuno cynnig argymhellion 1 a 3 yn yr adroddiad. Yna roedd yn dymuno gwneud mân ddiwygiad i argymhelliad 2.

"I'r Aelodau gefnogi cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod ar gyfer Aelodau Ward a thrigolion y safleoedd hyn a bod yr holl hysbysiadau yn cael eu hanfon trwy lythyr at bob eiddo a restrwyd ar gyfer Treth y Cyngor ar y safleoedd a bod y rhain yn amodol ar y penderfyniadau trwyddedu".

Eglurodd y Cynghorydd Ibbotson fod nifer anghymesur o drigolion ar y safleoedd hyn wedi'u heithrio'n ddigidol o'i gymharu â thrigolion eraill yn y sir. Defnyddiwyd dulliau eraill mewn ceisiadau cynllunio megis postio biliau ac ati ond efallai na fydd y rhain yn briodol yn yr achos hwn. Cyfeiriodd at yr Amodau Trwyddedu yr oedd angen eu harddangos a theimlai yn hytrach na dibynnu ar berchnogion safleoedd y byddai'n well postio'r rhain i'r holl breswylwyr.

Gan ymateb i gwestiynau ar y goblygiadau o ran adnoddau a phenodi Cwnsler gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson, cyfeiriodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes at yr ail argymhelliad gan ddweud bod hyn eisoes wedi'i ystyried. O ran y pwynt cyngor cyfreithiol, cadarnhaodd fod llawer o brofiad cyfreithiol yn y Cyngor ond y byddai mwy o faich ar wasanaethau cyfreithiol i fynychu ochr yn ochr â swyddog a oedd yn arferiad. Byddai hwn yr un trefniant gyda'r Pwyllgor Trwyddedu yn gwneud y penderfyniad hwnnw gyda chynghorydd cyfreithiol yn bresennol, ond gyda chynnydd yn nifer y cyfarfodydd Pwyllgor a'r angen am y cymorth cyfreithiol hwnnw. Pan glywyd achosion mwy cymhleth, cynghorwyd y dylai'r Cyngor gael cyngor cyfreithiol allanol ond ni fyddai angen hyn ar gyfer pob cais. Cyfeiriodd y Cynghorydd Ibbotson at y Cwnsler Arbenigol a gofynnodd a oedd hwn eisoes wedi'i gomisiynu. Cadarnhawyd mai dyma oedd yr

achos ar gyfer ceisiadau cyfredol, fodd bynnag nid oedd trefniadau cymorth cyfreithiol yn y dyfodol wedi'u cadarnhau eto. Yna gofynnodd y Cynghorydd Ibbotson am eglurhad nad oedd hyn yn oblygiad newydd o ran adnoddau.

Eglurodd y Prif Swyddog fod yr amser yn eistedd ar y Pwyllgor ar hyn o bryd yn rhoi baich ychwanegol ar y Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn dilyn sgyrsiau gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol teimlai nad oedd ganddynt y gallu i gefnogi hyn ar hyn o bryd.

Cynigiwyd yr argymhellion, fel y'u diwygiwyd, gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst

**PENDERFYNWYD:**

(a) Argymell i'r Cyngor y bydd pob cais a wneir mewn perthynas â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor Trwyddedu.
(b) I'r Aelodau gefnogi cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod ar gyfer Aelodau Ward a thrigolion y safleoedd hynny sy'n destun y penderfyniadau trwyddedu.
(c) Nodi y bydd hyfforddiant Cartrefi Symudol Preswyl ar gael i bob Aelod.

## 19. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.14pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**